



**Rhif: WG44493**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Nodyn Cyngor Technegol 11: Ansawdd Aer, Sŵn a  
Seinwedd

a

Dogfen Ategol 1: Dylunio Seinwedd

Dyddiad cyhoeddi: 21 Hydref 2022

Camau i'w cymryd: 20 Ionawr 2023

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y drafft o ganllawiau cynllunio diwygiedig mewn perthynas ag ansawdd aer, sŵn a sain.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn am eich barn ar y Ddogfen Ategol ddrafft ar Ddylunio Seinwedd.

Bydd y TAN 11 diwygiedig yn disodli'r TAN 11 presennol, a gyhoeddwyd ym 1997, ar ei gyhoeddi terfynol

Bydd y Ddogfen Ategol yn ategu TAN 11 sy'n anelu at roi cyngor i'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a datblygu ar pryd a sut i ddefnyddio dull dylunio seinwedd yn lle, neu yn ychwanegol at, reoli sŵn neu ddylunio acwstig mwy confensiynol.

## Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb. Gellir cyflwyno ymatebion mewn nifer o ffyrdd:

Ar-lein: [Ymgynghoriadau | LLYW.CYMRU](#)

E-bost: [planningpolicy@llyw.cymru](mailto:planningpolicy@llyw.cymru)

Post: Ymgynghoriad TAN 11

Y Gangen Polisi Cynllunio,

Llywodraeth Cymru,

Parc Cathays,

Caerdydd

CF10 3NQ

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb yn bersonol neu'n cynrychioli barn sefydliad.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Mae fersiynau print bras, Braille a iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Mae TAN 11 diwygiedig drafft, y Ddogfen Ategol ddrafft a dwy enghraifft o ddyluniad seinwedd ar gael fel atodiad i'r ddogfen hon.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

[planningpolicy@gov.cymru](mailto:planningpolicy@gov.cymru)

## **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU)**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hwy neu'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan contract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ran o'ch data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

## **Eich hawliau**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i gael mynediad ato
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i (mewn rhai amgylchiadau) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)

- i (mewn rhai amgylchiadau) gludadwyedd data
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost: [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Cynnwys

Cynnwys.....	5
Cyflwyniad.....	6
Beth yw TAN 11? .....	6
Beth yw'r Ddogfen Ategol 1: Dylunio Seinwedd? .....	6
Ar beth ydym yn ymgynghori? .....	7

## Cyflwyniad

Cafodd **Polisi Cynllunio Cymru** ei ddiwygio'n llawn yn 2018 i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r polisi'n sicrhau bod y system gynllunio yn gwneud y mwyaf o'i chyfraniad i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddiffinnir yn y Ddeddf. Mae Nodiadau Cyngor Technegol yn ddogfennau canllaw cynllunio defnydd tir sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol ar feysydd polisi a nodir ym [Mholisi Cynllunio Cymru](#).

## Beth yw TAN 11?

Cyhoeddwyd y rhifyn blaenorol o TAN 11 ym 1997 ac roedd yn cynnwys sŵn. Fe'i diweddarwyd drwy lythyr egluro polisi (CL-01-15 Diweddariadau i Ymrwymadau Sŵn Tan 11 - Cynllun Gweithredu Sŵn (2013-18) yn 2015. Mae gan sŵn amgylcheddol lawer yn gyffredin â llygredd aer. Tuedda ffynonellau llygredd aer a sŵn amgylcheddol i fod naill ai'n union yr un fath neu'n gysylltiedig â'i gilydd, mae eu llwybrau trosglwyddo yn debyg ac mae'r derbynyddion yr effeithir arnynt fwyaf hefyd yr un fath yn aml, fel arfer y bobl sydd agosaf at y ffynhonnell.

Am y rhesymau hyn, mae'n briodol ystyried y ddau fath o lygredd a gludir yn yr aer gyda'i gilydd a dyma'r dull a ddefnyddiwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Bydd y TAN 11 drafft newydd yn cefnogi ffocws creu lleoedd Polisi Cynllunio Cymru drwy ymhelaethu'n benodol ar **ansawdd aer**, **sŵn** a **seinwedd** yn fanylach.

Cynhaliwyd cais am dystiolaeth rhwng 10 Chwefror a 4 Mai 2020 i helpu i baratoi'r TAN drafft newydd. Mae'r wybodaeth, y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gafwyd yn 2020 mewn ymateb i'r alwad hon wedi'u hystyried wrth baratoi'r TAN drafft.

## Beth yw'r Ddogfen Ategol 1: Dylunio Seinwedd?

Diben y canllaw hwn yw rhoi cyngor i'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a datblygu ar pryd a sut i ddefnyddio dull **dylunio seinwedd** yn lle, neu yn ychwanegol at, reolaeth sŵn fwy confensiynol neu **ddylunio acwstig**. Diben y dull amgen hwn fyddai creu a chynnal seinweddau priodol a sicrhau **creu lleoedd gwell** yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, [Cynllun gweithredu sŵn a seinwedd 2018 i 2023](#) a TAN 11. Mae'r canllaw yn cyd-fynd ag amcanion dylunio da a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac a ymhelaethwyd arno yn Nyluniad TAN 12 a chanllawiau cysylltiedig, ac mae'n ceisio lleoli, fel y bo'n briodol, ddyluniad seinwedd fel rhan o'r dull dylunio cyffredinol a ddefnyddir yn TAN 12.

## Ar beth ydym yn ymgynghori?

Mae nifer o newidiadau a diweddariadau arfaethedig wedi'u cynnwys yn fersiwn ymgynghori TAN 11. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys:

- **Diweddarau a disodli'r cyngor presennol ar sŵn sydd wedi'i gynnwys yn TAN 11: Sŵn 1997 ar hyn o bryd**
- **Ychwanegu cyngor yn ymwneud ag ansawdd aer a seinwedd**
- **Darparu dogfen ategol ar bwnc dylunio seinwedd**

Mae **Pennod 1** y TAN yn gosod y cyd-destun ac yn amlinellu cwmpas y TAN drafft. Ei ddiben uniongyrchol yw ymhelaethu ar y polisi a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru a nodi sut y dylai weithio gyda'r safonau perthnasol a chanllawiau arfer gorau.

Mae **Pennod 2** yn amlinellu'r dull cyffredinol o fynd i'r afael ag ansawdd aer, sŵn a seinwedd, gan gydnabod yr angen i weithredu ar wahanol raddfeydd, mabwysiadu dull integredig a rhoi ystyriaeth gynnar i'r problemau. Mae'n pwysleisio ar greu lleoedd a phwysigrwydd lleoliad da a dylunio da ac yn diffinio'r rôl y gallai seilwaith gwyrdd ei chael wrth ymateb i broblemau ansawdd aer, sŵn a sain.

Mae **Pennod 3** yn rhoi canllawiau ar ystyried ansawdd aer, sŵn a seinwedd wrth ddatblygu strategaethau ar gyfer lleoedd a pharatoi cynlluniau datblygu. Mae'n ystyried yr wybodaeth sydd ar gael, sut y gellir ei defnyddio ac mae'n cynnwys cymysgedd o ffyrdd cyffredinol a phenodol o fynd i'r afael ag ansawdd aer, sŵn a seinwedd. Mae'n nodi mai rhoi sylw pwrrpasol, a hynny drwy lunio cynlluniau a datblygu strategaethau, yw'r ffordd fwyaf buddiol o roi ystyriaeth gynnar i'r materion hyn ac osgoi'r anawsterau sy'n gysylltiedig â dewis lleoliadau gwael.

Mae **Pennod 4** yn diffinio datblygiadau sy'n sensitif i lygredd a datblygiadau sydd â'r potensial i gynhyrchu llygredd ac yn canolbwyntio ar bedair agwedd ailadroddol allweddol y mae'n rhaid iddynt lywio'r gwaith o lunio unrhyw gynnig i ddatblygu. Nod hyn yw gwella ansawdd y cynigion a gyflwynir a bydd yn dylanwadu ar ba mor dderbyniol y gall datblygiad fod o ran ansawdd aer, sŵn a seinwedd. Y pedair agwedd yw'r amodau amgylcheddol cychwynnol ar y safle, y berthynas rhwng datblygu a'i hamgylchoedd, rôl dylunio, a mynd i'r afael ag effeithiau yn ystod y cam adeiladu. Mae'r bennod yn pwysleisio'r angen am ddull cymesur, yn rhoi cyngor ar lefel y manylder a'r asesiad meintiol sydd ei angen, yn egluro rôl rheoli sŵn a dylunio acwstig o'i gymharu â'r defnydd o ddyluniad seinwedd, ac yn cydnabod pwysigrwydd canllawiau cynllunio atodol a ddatblygwyd yn lleol.

Mae **Pennod 5** yn ymdrin â rheoli datblygiadau a phennu derbynioldeb effeithiau llygredd ar gyfer datblygiadau sy'n sensitif i lygredd a datblygiadau sydd â'r potensial i gynhyrchu llygredd. Mae'r bennod hon yn cwmpasu'r broses o bennu'r amodau amgylcheddol yr ystyrir eu bod yn anaddas ar gyfer datblygiadau sy'n sensitif i lygredd ac yn nodi y dylid gwrthod ceisiadau cynllunio, fel rheol, yn achos datblygiadau sy'n sensitif i lygredd ar safleoedd lle mae amcanion ansawdd aer yn

cael eu torri, neu'n agos at gael eu torri, neu pan nad ydynt yn bodloni un neu ragor o feini prawf sain rhagosodedig. Mae'r bennod hon hefyd yn ymdrin ag asesu effeithiau'r llygredd a gynhrychir gan ddatblygiadau wrth roi sylw hefyd i sut y gall llygredd aer effeithio ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Mae'r bennod hon yn cymhwyso'r Egwyddor Cyfrwng Newid i achosion lle cynigir codi datblygiadau sy'n sensitif i lygredd yn agos i weithgareddau sydd eisoes yn cynhyrchu llygredd. Mewn achosion o'r fath rhaid i ddatblygwyr ac ymgeiswyr, fel y 'cyfryngwyr newid', ddefnyddio dulliau dylunio da neu gymryd camau eraill i sicrhau, er boddhad yr awdurdod cynllunio, na fydd datblygiadau o'r fath yn peri i weithgareddau sy'n cynhyrchu llygredd barhau, neu'n peri iddynt gynyddu.